Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.07.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cronfa Cadernid Economaidd (ERF): Cymorth Gorffennaf/Awst ar agor i fusnesau sydd â throsiant o £85k+

Gall busnesau â throsiant cyn COVID o £85,000+, yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd ar waith yn ystod Gorffennaf ac Awst 2021, wneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd am gymorth ariannol i gwrdd â'u costau gweithredu (ac eithrio cyflogau staff). Mae'r gronfa yn agor heddiw, 13 Gorffennaf 2021 tan 12:00pm 27 Gorffennaf 2021. Gallwch wirio eich cymhwysedd trwy fynd i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy

- Bydd ceisiadau am gymorth gan fusnesau sydd â throsiant cyn COVID o dan £85,000 yn agor ar 26 Gorffennaf 2021 (mwy o wybodaeth i ddilyn).

## COVID-19: Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth – pumed grant SEISS

Gallwch hawlio y pumed grant sydd ar gael o dan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) os ydych yn credu y bydd coronafeirws (COVID-19) yn effeithio ar elw eich busnes rhwng 1 Mai 2021 a 30 Medi 2021. Os ydych yn gymwys ar sail eich Ffurflenni Treth, bydd CThEM yn cysylltu â chi o ganol mis Gorffennaf ymlaen i roi dyddiad i chi pan fydd y gwasanaeth hawlio ar gael. Bydd yn cael ei roi i chi naill ai drwy e-bost, llythyr neu drwy'r gwasanaeth ar-lein. Bydd y gwasanaeth ar-lein i hawlio'r pumed grant ar gael o ddiwedd mis Gorffennaf 2021. Am fwy o wybodaeth ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme.cy

## COVID-19: Cronfa Arloesi Sioeau Amaethyddol

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC) yn gweinyddu Cronfa Arloesi Sioeau Amaethyddol ar ran Llywodraeth Cymru. Nod y Gronfa Arloesi Sioeau Amaethyddol, fydd yn cefnogi prosiectau newydd yn unig, yw annog atebion arloesol i helpu i gwrdd â'r heriau presennol ac i gynorthwyo cydweithrediad rhwng cymdeithasau sioeau amaethyddol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5:00pm ar 16 Gorffennaf 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://cafc.cymru/2021/06/18/cronfa-arloesi-sioeau-amaethyddol/

## ARIANNU: VisitBritain: Cronfa gymorth i ddigwyddiadau busnes domestig

Bydd y Gronfa Cymorth Domestig (Domestic Support Fund) yn rhoi cymorth ariannol i sefydliadau nid-er-elw sy'n cynnal digwyddiadau busnes domestig rhwng 21 Mehefin ac 17 Rhagfyr 2021. Gall sefydliad digwyddiadau wneud

cais am £30 y cynrychiolydd (arian parod yn cynnwys TAW) hyd at uchafswm o £15,000. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3xQDldH

https://www.visitbritain.org/domestic-support-fund

# COVID-19: Gorchuddion wyneb i barhau i helpu i ddiogelu Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd gorchuddion wyneb yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth helpu i ddiogelu pawb rhag y coronafeirws yng Nghymru. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-i-barhau-i-helpu-i-ddiogelu-cymru

# COVID-19: Profion Llif Unffordd(LFTs)

Bydd sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn profi eu hunain yn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu. Anogir ymwelwyr i ddod â LFTs gyda nhw a phrofi eu hunain cyn ac yn ystod eu hymweliadau. Dylid annog staff – yn enwedig y rhai mewn rolau sy’n wynebu cwsmeriaid – i brofi eu hunain yn rheolaidd. Mae gwybodaeth ar sut i gael profion llif unffordd ar gael yma:

https://llyw.cymru/cael-profion-llif-unffordd-covid-19-cyflym-os-nad-oes-gennych-symptomau

Mae hefyd yn bosib i drigolion lleol gasglu profion COVID-19 cyflym o’r rhan fwyaf o fferyllfeydd yn yr ardal. Mae mwy o wybodaeth ar:

https://111.wales.nhs.uk/LocalServices/default.aspx?locale=cy

# RHWYDWEITHIO: Digwyddiad Ymgysylltu â Chydweithredwr Mott MacDonald 15 Gorffennaf 2021

Mae’r cwmni ymgynghori byd-eang Mott MacDonald yn dymuno ymgysylltu â chwmnïau ymgynghori micro, bach a chanolig yng Nghymru sy’n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig. Bydd y digwyddiad ar-lein yn cael ei gynnal o

12:00pm – 1:00pm ar 15 Gorffennaf 2021; am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/digwyddiad-ymgysylltu-a-chydweithredwr-mott-macdonald/

# DIWEDDARIAD BREXIT

- Cymorth a chefnogaeth ar gyfer cyfnod pontio y DU
  Gwyliwch fideos, cofrestrwch i gael rhybuddion e-bost a chofrestrwch am weminarau am ddim i ddysgu mwy am gyfnod pontio'r DU, ewch i:
  https://bit.ly/3xBEFS1

- Llythyrau i fusnesau ynghylch mewnforio ac allforio nwyddau rhwng Prydain Fawr a'r UE – diweddariad mis Gorffennaf
  Llythyrau Cyllid a Thollau EM i fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ym Mhrydain Fawr ac yn masnachu gyda'r UE, gan dynnu sylw at y rheolau a'r camau newydd i'w cymryd ar gyfer mewnforio nwyddau o'r UE neu allforio nwyddau i'r UE. Ewch i:
  https://bit.ly/3yUL6Qi

- Helpu busnesau i baratoi ar gyfer Rheoli Tollau llawn ym mis Ionawr 2022
  Mae Cyllid a Thollau EM yn annog busnesau'r DU i baratoi ar gyfer newidiadau tollau a fydd yn cael eu cyflwyno dros y 6 mis nesaf. Ewch i:
  https://bit.ly/3yT0eha

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru